County Hall
Rhadyr
Usk
NP15 1GA

Dydd Mawrth, 31 Rhagfyr 2019

## Hysbysiad o gyfarfod

# Pwyllgor Archwilio

## Dydd Iau, 9fed Ionawr, 2020 at 2.00 pm,
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

# AGENDA

| Item No | Item | Pages |
|---|---|---|
| 1. | Ymddiheuriadau am absenoldeb | |
| 2. | Datganiadau o Fuddiant | |
| 3. | Fforwm Agored i'r Cyhoedd | |
| 4. | Nodi'r Rhestr Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf | 1 - 2 |
| 5. | Hyfforddiant Archwilio Gwrth-llwgrwobrwyo (Cyflwyniad) | |
| 6. | Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Chwythu'r Chwiban a Thegwch yn y Gwaith (cwynion) | 3 - 22 |
| 7. | Cyfrifon Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy (2018-19) | 23 - 34 |
| 8. | ISA Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy | 35 - 42 |
| 9. | Adolygiad Dilynol Iechyd yr Amgylchedd Swyddfa Archwilio Cymru ac Ymateb y Rheolwyr | 43 - 60 |
| 10. | Adolygiad Dilynol Gwasanaethau Hamdden Swyddfa Archwilio Cymru | 61 - 74 |
| 11. | Blaengynllun Gwaith | 75 - 76 |
| 12. | I gadarnhau cofnodion y cyfarfodydd blaenorol | 77 - 82 |
| 13. | I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel 13eg Chwefror 2020 | |

| | | |
|---|---|---|
| **14.** | **Diweddariad 6 mis ar Farnau Anffafriol** | 83 - 94 |
| **15.** | **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes canlynol yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn cynnwys gwybodaeth fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (Barn y Swyddog Priodol ynghlwm).** | 95 - 98 |
| **16.** | **6 Month Update on Unfavourable Opinions (Part 2)** | 99 - 100 |


**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | P White<br>P. Clarke<br>A. Easson<br>M.Feakins<br>J. Higginson<br>M.Lane<br>P. Murphy<br>V. Smith<br>B. Strong<br>J.Watkins<br>S.B. Jones |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.